



**Comisiynydd
Plant Cymru**

Children's
Commissioner
for Wales

5 Tachwedd 2020

Ymateb i ymchwiliad hawliau plant

Diolch am y cyfle i rannu meddyliau pellach a diweddarau gwybodaeth ar ôl cyhoeddi ymateb y Llywodraeth i'ch adroddiad cynhwysfawr ar yr ymchwiliad hawliau plant.

Er bod mwyafrif yr argymhellion wedi cael eu derbyn gan y Llywodraeth, rwy'n bwriadu gwneud sylwadau ar bob argymhelliad yn ei dro, yn hytrach na chanolbwyntio ar y rhai a wrthodwyd yn unig. Mae yna rai pwyntiau pwysig i'w hystyried hyd yn oed mewn ymateb i'r argymhellion hynny a dderbyniwyd. O ganlyniad, byddaf yn mynd trwy'r argymhellion yn eu trefn.

Argymhelliad 1:

Mae'r Llywodraeth wedi derbyn pwysigrwydd CRIA (Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant) cadarn ym mhob maes polisi, ond nid yw eu hymateb y byddant yn "ategu pwysigrwydd hawliau plant ar bob cyfle ystyrion" o reidrwydd yn rhoi sylw i fanylion yr argymhelliad hwn. Rwy'n disgwyl i'r Cynllun Hawliau Plant diwygiedig gyfeirio'n benodol at yr argymhelliad hwn, gan fod hynny'n rhywbeth yr oeddwn wedi gofyn i swyddogion ei ystyried yn flaenorol, felly rwy'n croesawu'r argymhelliad hwn, a byddwn yn ei drafod ymhellach pan fyddwn ni'n rhan o'r ymgynghori ynghylch y Cynllun newydd.

Argymhelliad 2:

Roedd y Llywodraeth wedi nodi nad ydynt yn dymuno cynnwys rôl sydd â chyfrifoldeb am blant a phobl ifanc a'u hawliau yn y Cabinet. Efallai nad yw hwn yn newid y mae modd ei wneud ar yr adeg hon yn Nhymor y Senedd, ond byddwn i'n awgrymu ei fod yn cael ei ailystyried yn dilyn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021.

Yn eu Sylwadau Terfynol yn 2016, roedd Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn yn argymhell bod angen gwell cydlynu ar weithrediad y Confensiwn yn y gwledydd datganoledig. Byddai sicrhau amlygrwydd a chyfrifoldeb ar lefel y Cabinet yn un ffordd o gefnogi hyn.

Argymhelliad 3:

Mae'r Llywodraeth yn derbyn 'mewn egwyddor' hyfforddiant hawliau plant i bob Gweinidog. Fe wnes i arwain hyfforddiant gyda mwy na 150 o swyddogion y Llywodraeth fis diwethaf, ac rwy'n

deall bod hyn yn rhan o gynllun parhaus i ddiwygio hyfforddiant, rhywbeth rwy'n ei groesawu. Rwy'n disgwyl cael peth mewnbwn i ddatblygiad deunyddiau hyfforddi o'r fath.

Fodd bynnag, nid oes modd dilysu ymateb y Llywodraeth i argymhelliad 2 ond os caiff hyfforddiant ei ddarparu i bob Gweinidog, eu timau a'u swyddogion, er mwyn deall a chyflawni dyletswyddau Mesur 2011.

Argymhelliad 4:

Rwy'n croesawu'n fawr y ffaith bod y Llywodraeth yn derbyn yr angen i'w gweithdrefn gwynion ddiwygiedig gynnwys yr hawl i herio penderfyniad i beidio â chynnal CRIA ar unrhyw faes lle mae polisi'n cael ei ddatblygu. Mae hyn hefyd yn cysylltu ag Argymhelliad 10 isod.

Rwyf wedi derbyn peth gohebiaeth ar y mater hwn yn ystod cyfnod y pandemig. Rwy'n credu ei fod yn well cyfeirio cwynion ynghylch penderfyniadau'r Llywodraeth am CRIA atyn nhw, gan na allaf ateb ar eu rhan. Byddwn felly yn croesawu mwy o eglurder ynghylch hyn yn y Cynllun diwygiedig a'r wybodaeth gyhoeddus sy'n cyd-fynd ag ef. Nid yw hynny'n disodli fy rôl graffu; yn hytrach mae'n caniatáu mwy o dryloywder a mynediad unigol at wybodaeth ac i ystyried eu barn.

Argymhelliad 5:

Mae ymateb y Llywodraeth yn nodi eu bod wedi penderfynu cyhoeddi pob CRIA o fis Ionawr i fis Gorffennaf 2020, ond nid oes gwarant o reidrwydd y bydd hynny'n parhau, felly byddaf yn cadw llygad ar hyn yn ystod y misoedd nesaf. Byddwn hefyd yn disgwyl i hyn gael ei adlewyrchu yn y Cynllun diwygiedig, gan fod y cynllun presennol yn ymrwymo i gyhoeddi CRIA ar gynigion deddfwriaethol yn unig.

Argymhelliad 6:

Mae'r Llywodraeth wedi derbyn yr angen am ddatgan o'r newydd yr ymrwymiad i hawliau plant yng Nghynllun Gwella'r Gyllideb, ac yn ddiweddar buon nhw'n cyfarfod â'r Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant ynghylch proses y Gyllideb. Fodd bynnag, dangosodd y cyfarfod hwnnw'n eglur nad oes bwriad i newid y broses asesu effaith ar gyfer y Gyllideb, ac ar hyn o bryd nid yw Cynllun Gwella'r Gyllideb yn cyfeirio at hawliau plant na CCUHP. Ar y sail honno rwy'n ansicr sut bydd y ffaith bod y Llywodraeth wedi derbyn yr argymhelliad hwn yn cael ei chyflawni mewn gwirionedd.

Argymhelliad 7:

Yn dilyn ymlaen o'r paragraff uchod, ar ôl gwrthod yr argymhelliad i gynnal CRIA penodol ar gyfer y Gyllideb, mae'n aneglur sut bydd yr effaith ar hawliau plant yn cael ei hasesu'n benodol mewn perthynas â'r Gyllideb.

Fel sydd wedi derbyn sylw yn fy nhystiolaeth flaenorol i'r Pwyllgor hwn ar yr ymchwiliad dan sylw ac eraill ynghylch cyllidebu, ymddengys bod ymdrechion cynnar yng Nghymru i ymgymryd â chyllidebu yng nghyswllt hawliau plant wedi colli tir, ac mae'r broses yn dlotach o ganlyniad o ran tryloywder ac atebolrwydd yng nghyswllt hawliau plant.

Nid oes modd yn y byd i CRIA unigol, ar lefel polisi, gymryd i ystyriaeth yr ymarferiadau cydbwysu sy'n ofynnol wrth lunio'r Gyllideb, ac o ganlyniad nid yw dadleuon y Llywodraeth yn y cyswllt hwn yn gwrthsefyll craffu.

Roedd Adran 12 o Sylwadau Terfynol Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn i'r Deyrnas Unedig yn 2016 yn cynnwys nifer o argymhellion mewn perthynas â chyllidebu yng nghyswllt hawliau plant, fel a ganlyn:

- (a) Defnyddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant wrth ymhelaethu ar gyllideb y Wladwriaeth, trwy roi system dracio ar waith ar gyfer dyrannu a defnyddio adnoddau i blant ar draws y gyllideb;
- (b) Sicrhau cyllidebu tryloyw a chyfranogol trwy ddeialog gyhoeddus, gan gynnwys gyda phlant;
- (c) Diffinio llinellau cyllidebol ar gyfer plant mewn sefyllfaoedd difreintiedig neu agored i niwed lle gall fod angen mesurau cymdeithasol cadarnhaol, a sicrhau bod y llinellau cyllidebol hynny'n cael eu diogelu, hyd yn oed mewn dirwasgiad economaidd;
- (d) Cynnal asesiadau effaith ar hawliau plant yn rheolaidd ar gyfer prosesau a chanlyniadau penderfyniadau economaidd a'r gyllideb, gan gynnwys mesurau cyni, mewn meysydd sy'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â hawliau plant;
- (e) Sefydlu mecanweithiau i fonitro a gwerthuso digonolrwydd, effeithlonrwydd a thegwch dosbarthiad adnoddau sy'n cael eu dyrannu i weithredu'r Confensiwn.

Byddai gen i ddi-ddordeb yn ymateb y Llywodraeth i'r Sylw Terfynol hwn fel rhan o Argymhellion 13 ac 14, yng ngoleuni'r ffaith eu bod wedi gwrthod argymhelliad 7.

Argymhelliad 8:

Mae'r Llywodraeth yn derbyn yr angen am ddatblygu a chyhoeddi strategaeth genedlaethol i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch CCUHP. Mae fy nhîm a minnau, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi annog y Llywodraeth i wneud hyn ar sawl achlysur. Yn flaenorol rwyf wedi awgrymu wrth y Llywodraeth y dylent ailgynnull eu grŵp cynghori ar Erthygl 42 er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith hwn. Roedd y grŵp Erthygl 42 yn cynnwys swyddogion cyfathrebu o'r Llywodraeth, fy swyddfa a Plant yng Nghymru, oedd yn dod at ei gilydd i gydlynu'r gwaith o gynyddu ymwybyddiaeth o CCUHP.

Argymhelliad 9:

Mae'r Llywodraeth wedi derbyn pwysigrwydd addysg hawliau dynol fel rhan o'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae eu hymateb yn dangos bod hyn yn rhan o'r Côt Beth sy'n Bwysig a'r gwaith Dyniaethau. Nid yw'n fwriad gennyf ailadrodd [fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor](#) ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu, ond carwn ddweud eto y bydd modd newid y Côt hwn, ac felly nad yw'r Llywodraeth yn amddiffyn yr hawl hon yn ddigonol, oni bai ei bod i'w gweld ar wyneb y Bil.

Ar ben hynny, nid yw'n ddigonol bod plant yn dysgu am eu hawliau yn unig; mae angen iddyn nhw eu profi ar hyd eu haddysg. Mae hynny'n golygu dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant ar gyfer sut mae polisiâu ysgol yn gweithredu, fel bod y plant yn profi amgylchedd sy'n parchu eu hawliau, yn hytrach na dysgu am hawliau fel cysyniad haniaethol yn unig. Mae hefyd yn gofyn bod hawliau plant

yn cael eu cymhwyso i benderfyniadau ynghylch dadgymhwyso'r Cwricwlwm o dan rai amgylchiadau, er enghraifft fel mae'r Bil yn caniatáu. Dyna pam mae'n rhaid rhoi dyletswydd sylw dyledus i CCUHP ar wyneb y Bil; heb hynny ni fydd ystyriaethau hawliau yn berthnasol i sut mae plant yn dysgu na beth maen nhw'n ei ddysgu.

Argymhelliad 10:

Rwy'n croesawu'r ffaith bod yr angen am gryfhau trefniadau cwynion y Llywodraeth a gwneud y broses honno'n hwylus i blant wedi cael ei dderbyn. Byddaf yn parhau i graffu ar hyn fel rhan o'r diwygiadau i'r Cynllun Hawliau Plant er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddatblygu a'i weithredu.

Argymhelliad 11:

Rwy'n cefnogi cytundeb y Llywodraeth i ysgrifennu at Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ofyn iddyn nhw gadarnhau Protocol Dewisol CCUHP 2014. Dyma un arall o argymhellion Sylwadau Terfynol Pwyllgor y CU yn 2016.

Argymhelliad 12:

Mae'r Llywodraeth wedi cytuno i gynnwys yn y Cynllun Hawliau Plant diwygiedig strategaeth glir ar gyfer sicrhau cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn trafodaethau ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru sy'n effeithio arnyn nhw. Rwy'n croesawu hyn yn fawr, ond hoffwn bwysleisio'r angen am ddefnyddio fersiynau addas i blant a phobl ifanc o ymgynghoriadau a digwyddiadau yn rheolaidd ac yn effeithiol fel rhan o hyn. Byddaf yn pwysleisio hyn, yn ogystal â phwysigrwydd ymgysylltu'n ystyrllon â phlant a phobl ifanc o amrywiaeth o wahanol gefndiroedd a phrofiadau, fel rhan o'm gwaith yn craffu ar y Cynllun diwygiedig.

Argymhelliad 13:

Mae'r Llywodraeth wedi cytuno i gyhoeddi ymateb strategol manwl i Sylwadau Terfynol Pwyllgor y CU yn 2016 o fewn y chwe mis nesaf, mewn perthynas â materion datganoledig. Nodaf nad ydynt wedi pennu dyddiad ar gyfer hynny, ond byddwn yn disgwyl iddo gael ei gyhoeddi cyn cyfnod 'Purdah' etholiad 2021. Ar ben hynny, byddwn i'n disgwyl iddo gwmpasu'r holl feysydd perthnasol, nid dim ond y rhai lle mae cynnydd wedi digwydd. Dylai amseriad y cyhoeddiad hwn ganiatáu iddo lywio'r Rhaglen Lywodraethu nesaf, gan y bydd yn nodi'r meysydd llai datblygedig sy'n galw am fwy o ffocws er mwyn symud hawliau plant ymlaen yn Nhymor nesaf y Senedd.

Mae'n werth nodi bod rhai o argymhellion y Pwyllgor o'r Ymchwiliad hwn yn adlewyrchu Sylwadau Terfynol 2016, gan nodi rhai meysydd sydd wedi cael eu gwrthod.

Argymhelliad 14:

Mae'r Llywodraeth hefyd wedi ymrwymo i ddiweddarau Aelodau'r Senedd 'yn rheolaidd' ynghylch cynnydd o ran y Sylwadau Terfynol. Mae'n aneglur sut a phryd bydd hyn yn digwydd a sut bydd yn cael ei gyfleu i randdeiliaid eraill, gan gynnwys plant a phobl ifanc eu hunain. Mae'r gallu i graffu ar ddiweddariadau o'r fath yn arbennig o bwysig, gan y gallai datganiadau fel arall ddilyn fformat datganiad blynyddol y Llywodraeth ar ben-blwydd y Sylwadau Terfynol, sydd yn y bôn yn amlygu'r meysydd lle gwnaed cynnydd cadarnhaol yn unig.

Argymhelliad 15:

Rwy'n pryderu bod y Llywodraeth wedi gwrthod yr angen i bob corff cyhoeddus datganoledig fod o dan ddyletswydd i roi sylw dyledus i CCUHP. Mae'n bosib nad yw'r Llywodraeth, drwy ariannu'r cyrff hynny, yn cydymffurfio â'u dyletswyddau eu hunain o dan Fesur 2011 i sicrhau sylw dyledus i hawliau plant ym mhopeth a wnânt. Mae hyn hefyd yn cysylltu'n ôl ag ystyried hawliau plant oddi mewn i'r Gyllideb, gan fod ariannu'r cyrff hyn yn enghraifft o'r Llywodraeth yn ymarfer eu swyddogaethau.

Er fy mod i'n ymwybodol bod ymchwil yn parhau mewn perthynas ag ystod o wahanol gytuniadau'r CU a rhwymedigaethau o dan gyfraith ryngwladol, fel y nodwyd uchod mae gan y Llywodraeth ddyletswyddau eisoes o dan Fesur 2011, ac mae angen iddi sicrhau bod hawliau plant yn wir yn cael eu gwireddu ym mywydau beunyddiol plant, trwy'r gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn gan gyrrff cyhoeddus. Mae'r achosion sy'n dod i sylw fy nhîm Ymchwiliadau a Chyngor yn rheolaidd yn awgrymu bod rhai anawsterau o ran sut mae awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn rhyngweithio ar achosion cymhleth, er enghraifft, ac ni allaf eu galw i gyfrif yn uniongyrchol ynghylch hawliau plant heb fod dyletswyddau penodol arnynt i weithredu'n unol â CCUHP. Enghraifft arall fyddai cau gwasanaeth awdurdod lleol neu fwrdd iechyd i blant; byddai dyletswydd sylw dyledus fel arfer yn cynnwys dyletswyddau i gynnal asesiadau effaith er mwyn darparu tystiolaeth ynghylch sut roedd hawliau plant wedi llywio penderfyniad o'r fath, ond ar hyn o bryd nid oes modd i mi alw cyrff i gyfrif am eu methiant i wneud hynny, ar sail y gofynion presennol.

Rheswm pellach dros alw am ddyletswydd sylw dyledus yn y Bil Cwricwlwm ac Asesu yw'r diffyg dyletswydd ehangach ar gyrrff cyhoeddus mewn perthynas â CCUHP. Tra bod y Llywodraeth yn parhau i wrthod galwadau am weithredu'r Confensiwn yn llawnach mewn modd systematig, bydd galwadau o'r fath yn parhau i gael eu gwneud mewn perthynas â darnau penodol o ddeddfwriaeth, ac nid yw dyletswyddau'r Llywodraeth ei hun o dan Fesur 2011 yn ddigonol i gwmpasu hynny, er gwaethaf eu honiadau yn y cyswllt hwnnw.

Argymhelliad 16:

Yn flaenorol mae'r Llywodraeth wedi gwrthod galwadau i drosglwyddo cyfrifoldeb am benodiadau, atebolrwydd a chyllido fy swyddfa i'r Senedd. Nodaf fod yr ymateb diweddaraf yn gwrthod yr alwad hon yn cyfeirio at y diffyg amser deddfwriaethol sydd ar gael i ddod â deddfwriaeth sylfaenol i rym er mwyn cyflawni hyn. Nid yw'r ymateb yn nodi, fodd bynnag, beth yw safbwynt y Llywodraeth ar y mater ei hun. Gellid casglu o'r ymateb mai'r unig reswm pam nad yw'r newid hwn yn cael ei wneud yw'r diffyg amser deddfwriaethol sydd ar gael i weithredu newid o'r fath.

Rwyf wedi cynnwys trosglwyddo penodiad y Comisiynydd i'r Senedd yn fy [nogfen faniffesto Hapus, Iach a Diogel](#) ar gyfer 2021.

Dylid nodi y bydd angen i gylch recriwtio nesaf swydd y Comisiynydd gychwyn yn 2021 er mwyn sicrhau bod rhywun newydd yn barod i'w b/phenodi cyn i'm tymor innau ddod i ben ym mis Ebrill 2022. Ar sail yr ymateb hwn, mae'n ymddangos yn annhebygol y bydd y newid hwn yn digwydd cyn y tymor nesaf o 7-mlynedd.

Cyflwynwyd gan:



Yr Athro Sally Holland

Comisiynydd Plant Cymru